HSCCLD347

# Cynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn ymgysylltu â theuluoedd mewn ffyrdd sy'n eu hannog i ymwneud â dysg a datblygiad plant a phobl ifanc. Mae'n gofyn i chi weithio gyda theuluoedd mewn ffyrdd a fydd yn cefnogi eu dealltwriaeth o ddysg a datblygiad plant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys annog teuluoedd i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau a'r broses adolygu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfathrebu â theuluoedd gan ddefnyddio dull cynhwysol, agored a chroesawgar
2. gwrando'n ofalus ar deuluoedd a chydnabod eu teimladau a'u profiadau
3. gwrando ar blant neu bobl ifanc i sicrhau bod eu barn yn cael ei glywed, gan ystyried eu hoedran, eu hanghenion a'u galluoedd
4. nodi a pharchu gwahanol strwythurau teuluol a sut y gallant effeithio ar y disgwyliadau sydd ar blant neu bobl ifanc
5. annog teuluoedd i gydnabod rhinweddau, sgiliau a galluoedd unigryw plant neu bobl ifanc
6. cefnogi teuluoedd i gael gafael ar wybodaeth am ddysg a datblygiad plant neu bobl ifanc
7. gweithio ag eraill i hybu amgylcheddau cefnogol lle gall teuluoedd siarad am ddysg a datblygiad plant neu bobl ifanc
8. dangos sut y gall gweithgareddau chwarae a rhyngweithiadau ymatebol helpu plant neu bobl ifanc i ddysgu, tyfu a datblygu sgiliau newydd
9. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i'w cefnogi i gymryd rhan yng ngweithgareddau chwarae, dysgu a datblygu plant neu bobl ifanc
10. nodi heriau a allai rwystro teuluoedd rhag bod yn rhan o ddysg a datblygiad plant neu bobl ifanc
11. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i'w cefnogi i adnabod y cyfraniadau sylweddol maent yn eu gwneud at ddysg a datblygiad plant neu bobl ifanc
12. cynnwys plant neu bobl ifanc yn y gwaith o adolygu eu cynnydd eu hunain
13. cynnwys teuluoedd yn yr adolygiad o gynnydd plant neu bobl ifanc
14. rhoi adborth i blant neu bobl ifanc a theuluoedd am eu cynnydd
15. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc, teuluoedd ac eraill i ddefnyddio gwybodaeth yr adolygiad i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer dysgu a datblygu
16. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant neu bobl ifanc
17. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y newidiadau y gallai plant a phobl ifanc fynd drwyddynt a sut y gall y rhain effeithio ar eu llesiant a'u datblygiad
2. y ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy'n effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar lesiant a datblygiad plant a phobl ifanc
4. sut mae adnabod a gwerthfawrogi strwythurau teuluol amrywiol
5. sut y gall disgwyliadau teuluoedd ar eu plant a phobl ifanc amrywio yn ôl diwylliant a chefndir
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a theuluoedd
7. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol teuluoedd sy'n ymwneud â dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
8. sut mae cynorthwyo teuluoedd i gael gafael ar wybodaeth am ddatblygiad plant
9. y cysylltiad rhwng chwarae, dysgu a datblygu, a sut i annog teuluoedd i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau chwarae
10. sut mae atgyfnerthu a dathlu ymdrechion a chysylltiad teuluoedd mewn ffordd gadarnhaol
11. sut mae cefnogi teuluoedd i gydnabod a gwerthfawrogi rhinweddau, sgiliau a galluoedd unigryw plant a phobl ifanc
12. effaith cynnwys teuluoedd yn y gwaith o adolygu cynnydd plant a phobl ifanc, a sut i hwyluso'r broses hon
13. gwerth amgylcheddau cefnogol lle gall teuluoedd deimlo'n gyfforddus wrth drafod dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
14. sut mae gwrando ar blant a phobl ifanc, ac ymateb yn effeithiol, gan ystyried eu hoedran, eu gofynion cyfathrebu, a'u hanghenion, a pham fod hyn yn bwysig
15. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth gynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
16. yr heriau posibl o ran cynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
17. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
18. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cynnwys teuluoedd o

fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc

19. theorïau sy'n berthnasol i gynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc
22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD347

Cynnwys teuluoedd o fewn dysg a datblygiad plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD347 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Teuluoedd, Dysg, Datblygiad, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |